# Galwad am ddatganiadau o ddiddordeb: Amser i glinigwyr gynnal gwaith ymchwil ar gyfer gwaith treialon clinigol canser

Mae Canolfan Ymchwil Canser Cymru yn chwilio am ddatganiadau o ddiddordeb gan glinigwyr i gymryd hyd at ddeuddydd yr wythnos o sesiynau ymchwil er mwyn datblygu ac arwain gweithgarwch ymchwil a fydd yn hyrwyddo treialon clinigol canser ac ymchwil drosi ym maes yng Nghymru.

**Cefndir**

Lansiwyd CReSt, y strategaeth Cymru gyfan gyntaf ar gyfer ymchwil canser, yn 2022. Ei nod allweddol yw meithrin gallu a màs critigol o ymchwil o amgylch chwe thema, er mwyn cryfhau a chanolbwyntio'r sylfaen ymchwil yng Nghymru. Un o'r themâu hyn yw treialon clinigol canser. Mae'r fenter *Mynd i'r afael â chanser trwy ymchwil* a arweinir gan Lywodraeth Cymru hefyd yn nodi'r angen i gynyddu capasiti academaidd clinigol yng Nghymru er mwyn cryfhau'r sylfaen ar gyfer treialon clinigol, yn enwedig y rhai a arweinir o Gymru.

Mae'r alwad hon am ddatganiadau o ddiddordeb gan glinigwyr sydd â phrofiad o gynnal gwaith ymchwil wedi'i chynllunio i gynnig amser penodol ar gyfer cynnal gwaith ymchwil sy'n helpu unigolion llawn cymhelliant i ehangu ar rolau fel prif neu gyd-ymchwilwyr treialon canser Cymru ac ymchwil drosi sy'n gysylltiedig â threialon y dyfodol, neu symud ymlaen i mewn iddynt.

**Pwy sy'n gymwys**

Mae'r cyllid CReSt hwn (a gyhoeddwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i Ganolfan Ymchwil Canser Cymru) ar gyfer clinigwyr a gyflogir gan y GIG sy'n gweithio ym maes canser yng Nghymru y mae'r canlynol yn berthnasol iddynt:

- profiad ymchwil presennol fel prif a/neu gyd-ymchwilwyr astudiaethau canser, a
- llai na deuddydd yr wythnos o sesiynau ymchwil yng nghynllun eu swydd yn ystod y cyfnod amser y gofynnir am sesiynau'n rhan ohono
- ddim eisoes yn cael sesiynau ymchwil clinigol wedi'u cyllido gan WCRC/CReSt.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgynghorwyr mewn oncoleg, llawfeddygaeth, a/neu ddisgyblaethau eraill sy'n gysylltiedig â chanser megis gofal lliniarol ac ymarfer cyffredinol, a hefyd uwch aelodau o grwpiau proffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes canser, gan gynnwys nyrsys, gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol, gwyddonwyr clinigol, neu eraill sydd mewn sefyllfa i arwain treialon canser/ymchwil drosi o Gymru. Anogir ymgeiswyr sydd â gradd uwch ôl-raddedig bresennol (MD neu PhDs) i wneud cais, er bod clinigwyr heb raddau uwch sy'n cynnal treialon hefyd yn gymwys.

Gall ymgeiswyr ofyn am hyd at ddeuddydd (hyd at 4 sesiwn gweithgaredd wedi'u rhaglennu) yr wythnos o amser ymchwil, yn dibynnu ar raddfa'r gweithgaredd y maent yn bwriadu ymgymryd ag ef. Os oes gan ymgeiswyr rywfaint o amser ymchwil eisoes o ffynonellau eraill (<2 ddiwrnod yr wythnos), gallant ofyn i gynyddu hyn i hyd at gyfanswm cyfunol o

ddeuddydd yr wythnos. Nid yw unigolion sydd â deuddydd neu fwy o amser ymchwil eisoes yn gymwys i wneud cais.

**Costau ac amserau a ganiateir**

- Gallwch wneud cais am gyllid WCRC CReSt i dalu eich cyflog clinigol am hyd at ddeuddydd yr wythnos tan ddiwedd mis Chwefror 2028. Sylwer na fydd y cyllid hwn yn cynnwys gorbenion sefydliadol. Ni fydd unrhyw gostau eraill nad ydynt yn gyflog yn cael eu talu. Bydd nifer a hyd y sesiynau y gallwn eu cefnogi yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael, a byddant yn cael eu trafod gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus.
- Y dyddiad dechrau ar gyfer y sesiynau hyn a ariennir gan CReSt fyddai rhwng mis Awst 2026 a mis Mawrth 2027, ond gofynnwn i ymgeiswyr gytuno ar ddyddiad dechrau realistig gyda'u cyflogwr cyn gwneud cais.
- Y dyddiad gorffen diweddaraf ar gyfer y sesiynau hyn a ariennir gan CReSt fyddai diwedd mis Chwefror 2028, pan mae'r cyllid hwn yn dod i ben.
- I’r rheini a benodir yn llwyddiannus sydd yn cymryd rhan mewn ymchwil fasnachol, efallai y bydd yn bosibl gwneud cais am tua 12 mis o gyllid dilynol trwy raglen buddsoddi ymchwil fasnachol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Nid yw argaeledd y cyfle hwn wedi’i gadarnhau eto, ond bydd yn cael ei egluro cyn y cyfweliadau. Gan y byddai'r estyniad hwn yn dod o ffynhonnell gyllido wahanol, bydd yn rhaid i Fwrdd Cyflawni Ymchwil Fasnachol Cymru ei adolygu os yw panel CReSt yn ei argymell. Efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth arnyn nhw i gefnogi eu penderfyniad.

**Gweithgareddau ac allbynnau disgwyliedig**

- Disgwylir y bydd y cyllid hwn yn cefnogi'r clinigwr i ymgymryd â gwaith datblygu (+/- darparu) treialon clinigol canser academaidd a/neu ddiwydiant a gweithgarwch trosiadol sy'n gysylltiedig â threialon. Bydd disgwyl i ddeiliaid y swydd ddod â phobl a thimau at ei gilydd ledled Cymru a thu hwnt fel rhan o'r gwaith hwn.
- Bydd deiliaid y swydd yn gallu cysylltu ag ymchwilwyr academaidd yn themâu CReSt i ddatblygu treialon ac unrhyw brosiectau trosiadol cysylltiedig, ac i ymuno â Rhwydwaith ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa neu ar ganol eu gyrfa Canolfan Ymchwil Canser Cymru Lle bo'n berthnasol, gall deiliaid hefyd weithio gyda Chanolfan Ymchwil Canser Caerdydd ar dreialon a gefnogir gan ffynonellau cyllid masnachol.
- Yn dibynnu ar gam datblygu'r gwaith, byddai'r allbynnau yn cynnwys: cyflwyno ceisiadau am gyllid y mae'r unigolyn yn eu harwain (prif ymchwilydd) neu'n gyd-ymgeisydd (cyd-ymchwilydd) arnynt; recriwtio cleifion cysylltiedig i dreialon a arweinir yng Nghymru; cyflwyniadau o fethodoleg neu ganlyniadau; a chyflwyno cyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid y mae'r unigolyn yn awdur arnynt.
- Bydd gofyn i'r unigolyn roi diweddariadau ar weithgarwch ac allbynnau er mwyn adrodd bob chwarter ac ar ddiwedd y flwyddyn o ran Canolfan Ymchwil Canser Cymru i'r ariannwr, ac efallai y gofynnir iddo fynd i gyfarfodydd grŵp arweinyddiaeth Canolfan Ymchwil Canser Cymru pan fo angen i roi diweddariad ar lafar.

**Sut i wneud cais am sesiynau a ariennir gan CReSt**

I wneud cais, bydd rhaid i chi gyflwyno’r canlynol:

4. **Eich CV**, gan gynnwys rhestr o gyhoeddiadau academaidd
5. **Datganiad personol**, sy'n crynhoi:
   - nifer y diwrnodau/sesiynau yr wythnos rydych yn gofyn am arian CReST
   - y dyddiad dechrau arfaethedig (rhwung mis Awst 2026 a mis Mawrth 2027) a'r dyddiad gorffen (erbyn diwedd mis Chwefror 2028 fan hwyrach);
   - gradd eich rôl yn y GIG;

- eich profiad ymchwil a'ch diddordebau (uchafswm o 200 o eiriau);
- y gwaith treialon clinigol academaidd a/neu ddiwydiant rydych yn bwriadu ei ddatblygu hyd at mis Chwefror 2028 (uchafswm o 400 o eiriau)
- unrhyw lwybrau y gallwch ddilyn cyllid dilynol drwyddynt i barhau â'ch gwaith ymchwil wedi hynny (uchafswm o 150 o eiriau)
- os ydych chi'n gwneud ymchwil fasnachol, nodwch os hoffech chi wneud cais am 12 mis o gyllid dilynol gan gronfa buddsoddi fasnachol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru neu beidio (noder nad yw'r cyfle hwn wedi'i gadarnhau eto).

6. **Llythyr o gefnogaeth** gan eich rheolwr llinell a'ch sefydliad cyflogi yn nodi eu bod yn barod i sicrhau bod amser ar gael yn eich cynllun swydd i chi ymgymryd â'r sesiynau ymchwil hyn, a'u bod yn ymwybodol na fydd y gorbenion yn cael eu cynnwys.

Am ymholiadau anffurfiol, cysylltwch wcrc@caerdydd.ac.uk.

Cyflwynwch eich cais erbyn **canol dydd ar ddydd Iau 18 Mehefin 2026**, drwy ebostio **DCG-HR@caerdydd.ac.uk** gan ddefnyddio'r llinell bwnc '**Cais am amser ymchwil clinigol**' ym mhennawd yr ebost.

Disgwylir y bydd y gwahoddir ymgeiswyr sy’n cyrraedd y rhestr fer i gyfweliad ar Teams ar ddydd Iau 2 Gorffennaf 2026.